OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 Rhif 2623 (Cy.215)

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

## Gorchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *28 Medi 2009* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Hydref 2009* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 3(4), (5) a (6) ac 8 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003(**1**) yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn—

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Canolfan Iechyd Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau, Eiddo, Hawliau a Rhwymedigaethau a Diddymu) (Cymru) 2009 a daw i rym ar 1 Hydref 2009.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "Canolfan Iechyd Cymru" ("*Wales Centre for Health*") yw'r corff o'r enw Canolfan Iechyd Cymru neu Wales Centre for Health a sefydlwyd gan adran 2 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003;

ystyr "Deddf 2003" ("*the 2003 Act*") yw Deddf Iechyd (Cymru) 2003;

ystyr "dyddiad trosglwyddo" ("*transfer date*") yw 1 Hydref 2009.

**Trosglwyddo swyddogaethau Canolfan Iechyd Cymru i Weinidogion Cymru**

**3.** A hynny'n effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, trosglwyddir holl swyddogaethau Canolfan Iechyd Cymru, fel y'u nodir yn adran 3 o Ddeddf 2003, i Weinidogion Cymru.

(**1**) 2003 p.4.

**Trosglwyddo eiddo**

**4.** A hynny'n effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen, trosglwyddir holl eiddo Canolfan Iechyd Cymru, gan gynnwys yr eiddo a restrir yn Atodlen 1, i Weinidogion Cymru.

**Gorfodadwyedd hawliau a throsglwyddo rhwymedigaethau**

**5.**—(1) Trosglwyddir i Weinidogion Cymru unrhyw hawl a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn orfodadwy gan neu yn erbyn Canolfan Iechyd Cymru.

(2) Trosglwyddir i Weinidogion Cymru unrhyw rwymedigaeth sy'n codi o arfer ei swyddogaethau a oedd, yn union cyn y dyddiad trosglwyddo, yn orfodadwy yn erbyn Canolfan Iechyd Cymru.

**Diddymu Canolfan Iechyd Cymru**

**6.** Diddymir Canolfan Iechyd Cymru a hynny'n effeithiol o 1 Hydref 2009 ymlaen.

**Dirymu Canlyniadol Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004**

**7.** Diddymir Rheoliadau Canolfan Iechyd Cymru (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) 2004(**2**) a hynny'n effeithiol o'r dyddiad trosglwyddo ymlaen.

*Edwina Hart*
Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

28 Medi 2009

(**2**) O.S. 2004/1742 (Cy. 181).

## ATODLEN 1

Erthygl 4

| Eiddo | Deiliadaeth |
| --- | --- |
| Y Llawr Cyntaf, 14 Heol y Gadeirlan Caerdydd, CF11 9LJ | Lesddaliad |
| Llawr Daear, 14 Heol y Gadeirlan Caerdydd, CF11 9LJ | Lesddaliad |
| Swyddfa yn Uned S5 | Lesddaliad |
| Neuadd Croesnewydd | |
| Parc Technoleg Wrecsam | |
| Wrecsam , LL13 7YP | |

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diddymu ar 1 Hydref 2009 y corff o'r enw Canolfan Iechyd Cymru a sefydlwyd o dan adran 2 o Ddeddf Iechyd (Cymru) 2003.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu'r Gorchymyn a bennir yn erthygl 7 ac yn darparu ar gyfer trosglwyddo swyddogaethau (erthygl 3); eiddo (erthygl 4) a hawliau a rhwymedigaethau (erthygl 5) i Weinidogion Cymru.